

## COFIO GWYNETH AP TOMOS

Annwyl Gwyneth. Nid cychwyn llythyr ydwyf, ond cofio Gwyneth ap Tomos. Y gair cyntaf sy'n dod i fy meddwl yw 'annwyl'. Annwyl, ond cryf a chadarn, a sefydlog. Cryf yn ei dewrder yng ngwyneb treialon; cadarn yn ei ymwybyddiaeth o werthoedd cynhenid; annwyl yn ei ffordd ac yn ei chroeso; sefydlog yn ei doethineb ac yn ei pherthynas a'i bro, a'i lleoliad. 'Roedd hi yn arlunydd o'r tir, o dirwedd a oedd yn ei adnabod yn dda. Mewn ffordd mae ei gwaith yn fy atgoffa o waith yr artistiaid gwlad, yr 'artistiaid artisan' mae Peter Lord yn eu trafod. Os ydych yn gyfarwydd a gwaith Peter Lord, fe wyddoch nad beirniadaeth mo hyn, ond dealltwriaeth o beth sydd yn bwysig mewn celf yn y diwylliant gwir Gymreig. Nid celf uchel-ael academiaidd o reidrwydd sydd yn 'siarad' ein iaith, nac yn cyffwrdd ein calonnau yma yng Nghymru. Estheteg Perthnasedd (*Aesthetics of Relevance*) yw'r modd mae Peter yn disgrifio'r gwaith a grewyd er mwyn y gynulleidfa frodorol. Mae tirweddau Gwyneth yn unigryw, yn hawdd eu adnabod, ac yn disgrifio'r wlad o'i chwmpas heb ddim 'ffriils' o'r byd celf rhyngwladol. Dyma ymateb greddfol i'r tirwedd, sydd hefyd yn cynnwys (pan na all beidio) y meysydd carafanau sydd yn llygru harddwch y tirwedd. Ni fu i Kyffin erioed eu cynnwys, na thractor na pheilon chwaith!

Ond i mi yn bersonol, y côf sydd gennyf o fynd i Glyn-y-Weddw, i'r Plas, yn niwedd yr wythdegau fu'r gynhaliaeth a gefais yno gan Gwyneth a Dafydd. Fel artist lled-ifanc oedd yn chwilio am lefydd i arddangos fy ngwaith y bu i mi ymlwybro draw i ben Llŷn. Drwy Gwyneth a Dafydd, fe gefais arddangos, a gwerthwyd gwaith, ond cefais lawer mwy na hyny. Cefais ryw fath o gartref yn ôl yn y gogledd wedi cyfnod o flynyddoedd yng Nghaerdydd. Cefais sgwrs a straeon, a chymorth i ddod a sawl prosiect i fodolaeth. Un a fu yn dra llwyddiannus oedd y cyd-weithrediad rhwng beirdd ac artistiaid yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Porthmadog yn 1987. Un arall fu yr arddangos ar y cyd gyda artistiaid o'r Iwerddon a elwyd yn 'Trosi/Trasnu' (geiriau Cymraeg a Gwyddeleg). Tra 'roedd Gwyneth yn cadw'r nyth yn y Plâs yn daclus, 'roedd Dafydd a mi allan yn hela am gelf, a bu i ni deithio nôl a mlaen i Ddulyn, gyda sawl tro trwstan, ac un daith fypwylol i ddinas Galway yn y gorllewin na wnaif byth anghofio.

Ond pwysig yw cofio hefyd, na fydde' Oriol Plas Glyn-y-Weddw, sydd nawr yn rhan anatod o rwydwaith celf weledol Cymru, yn bodoli heddiw onibai am weledigaeth a gwaith llafurus ond ysbrydoledig Gwyneth a Dafydd i atgyfodi y lle o adfeilion. Mae ein dyled yn fawr iddynt, a dwi yn hynod falch fod fy nghyswllt gyda'r lle hwn yn parhau heddiw.